**Rhif: WG52404**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad - Crynodeb o'r Ymatebion

## Cynllun Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494

05 Mehefin 2025

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-849-2

**Cynnwys**


**1. Cyflwyniad ..... 3**

**2. Datblygu ac Arfarnu'r Opsiynau ..... 4**

**3. Ymgynghoriad Cyhoeddus ..... 8**

3.1 Dogfen ymgynghori a ffurflen ymateb ar-lein ..... 8

3.2 Rhadbost ..... 8

3.3 E-bost ..... 8

3.4 Sesiwn i aelodau lleol – Dydd Mawrth 10 Rhagfyr 2024 ..... 8

3.5 Arddangosfa gyhoeddus – Dydd Mawrth 21 Ionawr 2025 ..... 8

3.6 Cyfryngau ymgynghori a chyhoeddusrwydd ..... 9

3.6.1 Llythyr drwy'r post ..... 9

3.6.2 Posteri ..... 9

3.6.3 Datganiad i'r wasg ..... 9

**4. Adborth yr Ymgynghoriad ..... 11**

4.1 Dadansoddiad o adborth yr arolwg ..... 11

4.1.1 Adborth o'r arolwg rhanddeiliaid ..... 18

4.2 Adborth wyneb-yn-wyneb ..... 18

4.2.1 Briffio aelodau – Dydd Llun 10 Rhagfyr 2024 ..... 18

4.2.2 Arddangosfa gyhoeddus – Dydd Mawrth 21 Ionawr 2025 ..... 19

4.3 Adborth E-bost ..... 19

**5. Crynodeb o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ..... 22**

5.1 Canlyniadau'r adborth ..... 22

**6. Penderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru 24**

**7. Y Camau Nesaf ..... 25**

**Atodiad A – Copïau o ddeunyddiau ymgynghori .....**

**Atodiad B – Rhestr o randdeiliaid a gafodd holiaduron yr ymgynghoriad .....**

**Atodiad C – Ymateb i adborth .....**

# 1. Cyflwyniad

Mae Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494, a chafodd ei hadeiladu yn 1960. Mae'n gysylltiad hanfodol ar gyfer traffig trawsffiniol rhwng gogledd Cymru, gogledd orllewin Lloegr a thu hwnt, gan gysylltu pobl, cymunedau a busnesau. Mae'r bont yn cludo tua 68,400 o gerbydau bob dydd (llif traffig dwyffordd saith diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd yn seiliedig ar ddata cyfrif 2024). Mae'r lefel hon o draffig yn golygu y byddai cau'r bont i newid y rhannau sydd wedi dirywio yn amharu'n ddifrifol ar bobl sy'n teithio yn yr ardal ac yn cael effaith niweidiol ar yr economi yng ngogledd Cymru.

Mae'r angen am bont newydd yn cael ei yrru gan gyflwr strwythurol gwael dec presennol y bont. Mae'r arolygiadau a'r gwaith monitro hyd yma wedi dod i'r casgliad bod amlder y gwaith atgyweirio a'r risg o waith atgyweirio ac ymyrryd mawr sy'n golygu cau'r bont yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Nododd y ddogfen Symud Gogledd Cymru Ymlaen, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017, fod angen darparu pont newydd ar draws Afon Dyfrdwy a fyddai'n caniatáu uwchraddio'r bont bresennol sydd mewn cyflwr strwythurol gwael.

Yn 2018, cynhaliwyd gwerthusiad i edrych ar opsiynau i adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494. Yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Ffyrdd ym mis Chwefror 2023, cafodd Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth y Cynllun eu hadolygu fel eu bod yn cyd-fynd â'r pedwar prawf adeiladu ffyrdd newydd[1].

Cynhaliwyd astudiaeth yn unol â gweithdrefn Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru 2024 (WelTAG), sef canllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru i'w defnyddio wrth ddatblygu, arfarnu a gwerthuso unrhyw ymyriad trafnidiaeth arfaethedig. Datblygwyd WelTAG 2024 i adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol lle mae angen asesu effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol opsiynau yn ogystal â chanlyniadau ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Ffyrdd a gyhoeddwyd yn 2023.

Mae WelTAG hefyd yn ceisio sicrhau bod cynigion trafnidiaeth y sector cyhoeddus yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- Cyfraniad cadarnhaol at amcanion polisi trafnidiaeth
- Gwerth da am arian
- Buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cyffredinol
- Y budd mwyaf gyda'r effaith leiaf
- Galluogi adnabod y cynllun mwyaf buddiol
- Caniatáu cymharu cynlluniau ar sail tebyg am debyg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 9 Rhagfyr 2024 a 4 Mawrth 2025.

[1] https://www.llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-ir-adolygiad-ffyrdd-html

## 2. Datblygu ac Arfarnu'r Opsiynau

Cafodd y cynllun ei ailwerthuso gan ddefnyddio'r **Arweiniad diweddaraf ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG)** a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024. Mae WelTAG yn nodi dull strwythuredig o gynllunio prosiectau. Mae'n dechrau drwy edrych ar yr achos dros newid ac mae'n symud drwy gyfres o gamau rhesymegol wrth ddatblygu prosiect, ei gyflawni ac, yn olaf, ei adolygu. Mae'r camau hyn yn cynnwys nodi amcanion, lleihau'r opsiynau ac yna datblygu achos busnes ar gyfer yr opsiwn a ddewiswyd. Mae hefyd yn cynnwys monitro a gwerthuso'r prosiect ar ôl iddo ddod i ben.

Mae angen yr ymyriad oherwydd cyflwr gwael Pont bresennol Afon Dyfrdwy ar yr A494, sy'n hanfodol i gynnal cysylltedd ar hyd coridor yr A494 yng ngogledd Cymru. Dros y pum mlynedd diwethaf mae llawer o waith atgyweirio wedi cael ei wneud i gadw'r bont yn weithredol. Fodd bynnag, mae'r arolygiadau a'r gwaith monitro hyd yma wedi dod i'r casgliad bod amlder y gwaith atgyweirio a'r risg o waith atgyweirio ac ymyrryd mawr sy'n golygu cau'r bont yn cynyddu.

Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a godwyd, ac yn unol ag amcanion strategol y rhwydwaith, datblygwyd y chwe Amcan Cynllunio Trafnidiaeth canlynol mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Mae'r opsiynau a ystyriwyd wedi cael eu gwerthuso yn erbyn yr amcanion hyn.

- Amcan 1: Cynnal gweithrediad croesfan A494 Afon Dyfrdwy drwy **fynd i'r afael â phont afon Dyfrdwy sydd wedi cyrraedd diwedd ei hoes.**
- Amcan 2: Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i newid dulliau teithio drwy wella'r ddarpariaeth o ddulliau teithio amgen.
- Amcan 3: Lleihau cyfanswm allyriadau carbon y cynllun drwy roi mesurau lleihau carbon ar waith wrth ddylunio, adeiladu a gweithredu.
- Amcan 4: Cynnal a chadw'r amgylchedd lleol, a'i wella drwy sicrhau budd net i fioamrywiaeth yn y tymor hir.
- Amcan 5: Gwella cadernid ar goridor yr A494 drwy leihau effeithiau digwyddiadau a damweiniau, a chynyddu diogelwch ar gyfer defnyddwyr y ffordd a staff cynnal a chadw.
- Amcan 6: Cynnal cysylltedd ar hyd coridor llwybr strategol yr A494 yn ystod y cyfnod adeiladu er mwyn lleihau'r effaith ar breswylwyr, busnesau, a thraffig lleol a strategol.

Drwy ddeall y materion cyfredol a'r heriau i'r dyfodol, nodwyd opsiynau posib a fyddai'n ceisio cyflawni'r amcanion. Aseswyd yr opsiynau hyn gan ddefnyddio WelTAG a thrwy broses o arfarnu dyluniad, yr amgylchedd, peirianneg a thrafnidiaeth. Cafodd yr opsiynau hyn eu hasesu i lunio rhestr fer o bum opsiwn. Dyma'r opsiynau:

**Opsiwn B** – Pont dau strwythur newydd dros Afon Dyfrdwy ynghyd â chyswllt teithio llesol yn rhan o isbont y rheilffordd bresennol

- Byddai hyn yn golygu dwy bont newydd yn lle'r bont bresennol dros Afon Dyfrdwy.

- Byddai’r gwaith ar y rheilffordd yn cael ei leihau drwy ailwampio'r llain ymyl ffordd bresennol drwy’r strwythur i hwyluso llwybr teithio llesol.
- Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell.

**Opsiwn C** – Pont dau strwythur newydd dros Afon Dyfrdwy ynghyd â thanbont reilffordd ar wahân ar gyfer teithio llesol

- Byddai hyn yn golygu dwy bont newydd yn lle’r bont bresennol dros Afon Dyfrdwy.
- Byddai tanbont newydd yn cael ei hadeiladu drwy arglawdd y rheilffordd ar gyfer llwybr teithio llesol.
- Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell.

**Opsiwn D** – Pont un strwythur newydd oddi ar y ffordd bresennol dros Afon Dyfrdwy ynghyd â thanbont reilffordd newydd tua’r gorllewin

- Byddai hyn yn golygu cael pont newydd yn agos iawn at y bont bresennol dros Afon Dyfrdwy.
- Byddai’r bont bresennol dros yr afon naill ai’n cael ei hailbwrpasu ar gyfer defnydd nad yw’n ymwneud â moduron neu’n cael ei dymchwel.
- Byddai tanbont newydd yn cael ei hadeiladu drwy arglawdd y rheilffordd ar gyfer traffig ffordd i’r gorllewin a llwybr teithio llesol.
- Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell.

**Opsiwn E** – Pont un strwythur newydd oddi ar y ffordd bresennol dros Afon Dyfrdwy ynghyd â chyswllt teithio llesol yn rhan o danbont y rheilffordd bresennol.

- Byddai hyn yn golygu cael pont newydd yn agos iawn at y bont bresennol dros Afon Dyfrdwy.
- Byddai’r gwaith ar y rheilffordd yn cael ei leihau drwy ailwampio'r llain ymyl ffordd bresennol drwy’r strwythur i hwyluso llwybr teithio llesol.
- Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell.

**Opsiwn F** – Pont un strwythur newydd oddi ar y ffordd bresennol dros Afon Dyfrdwy ynghyd â thanbont reilffordd ar wahân ar gyfer teithio llesol.

- Byddai hyn yn golygu cael pont newydd yn agos iawn at y bont bresennol dros Afon Dyfrdwy.
- Byddai tanbont newydd yn cael ei hadeiladu drwy arglawdd y rheilffordd ar gyfer llwybr teithio llesol.
- Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell.

Daeth arfarniad Cam 2 WelTAG i'r casgliad mai Opsiwn E oedd yn perfformio orau ac mae’n cynnwys adeiladu pont newydd i gludo **dwy lôn** o draffig tua’r dwyrain a’r gorllewin a **llwybr cyd-ddefnyddio** ar gyfer beicwyr a cherddwyr. Mae’r opsiwn hwn yn cael sgôr dda yn arfarniad WelTAG oherwydd yr agweddau allweddol canlynol:

- Mae’n cyd-fynd yn gryf â blaenoriaethau a gofynion Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

- Nid yw'r gwaith adeiladu'n cael llawer o effaith, gyda'r rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud heb amharu ar y traffig presennol sy'n defnyddio'r A494.
- Mae cyfleoedd gwell i leihau lefel y carbon yn ystod y gwaith adeiladu ac ailddefnyddio tir presennol er mwyn gwella bioamrywiaeth.
- Mae'n cael llai o effaith ar asedau trydydd parti fel Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru a chyflenwadau cyfleustodau cyhoeddus fel ceblau a phibellau cyflenwi trydan, dŵr/carthion a nwy.
- Cyfleusterau teithio llesol gwell gyda chysylltiadau newydd.
- Costau carbon a chyfalaf adeiladu is.


Byddai'r bont newydd yn cael ei lleoli i'r de-ddwyrain o bont bresennol Afon Dyfrdwy ar yr A494. Cynigir bod y gwaith adeiladu'n cael ei wneud oddi ar y briffordd bresennol er mwyn i'r ffordd aros ar agor yn ystod y rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu.

Dangosir diagram o Opsiwn E isod sy'n nodi lleoliad arfaethedig Pont newydd Afon Dyfrdwy. Byddai'r bont hon yn croesi Afon Dyfrdwy rhwng Queensferry a Garden City, i fyny'r afon o'r bont bresennol.

Fel rhan o Opsiwn E, byddai'r bont newydd yn cael ei hadeiladu a byddai'r bont bresennol yn dal i gael ei defnyddio. Pan fydd y bont newydd wedi'i chwblhau ac yn weithredol, byddai Pont bresennol Afon Dyfrdwy wedyn yn cael ei datgomisiynu a'i thynnu.

Mae'r diagram hefyd yn dangos sut byddai'r bont newydd yn cysylltu â llwybrau teithio llesol lleol. Mae hyn yn cynnwys llwybrau teithio llesol presennol ar hyd ochr Garden City o Afon Dyfrdwy a llwybrau teithio llesol arfaethedig newydd ar hyd yr A494 ei hun o Queensferry i Garden City.

**Ffigur 2.1: Trosolwg o Gynllun Arfaethedig Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494**



## 3. Ymgynghoriad Cyhoeddus

Dechreuodd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun arfaethedig ar 9 Rhagfyr 2024 a daeth i ben ar 4 Mawrth 2025. Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd aelodau o'r cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb i gyflwyno sylwadau ar yr Opsiynau Arfaethedig a amlinellir uchod.

Mae'r adran hon yn crynhoi'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd i gasglu adborth yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus Cam 2 WelTAG (yr ymgynghoriad). Darparwyd yr holl ddeunyddiau'n Gymraeg ac yn Saesneg.

### 3.1 Dogfen ymgynghori a ffurflen ymateb ar-lein

Cafodd dogfen ymgynghori a ffurflen ymateb eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Gallai ymatebwyr weld y ddogfen ymgynghori a chyflwyno sylwadau ar-lein neu lwytho ffurflen ymateb i lawr a'i dychwelyd drwy ddulliau eraill fel y nodir isod. Roedd fersiynau electronig o fyrddau arddangos yr arddangosfa gyhoeddus hefyd ar gael i'w gweld ar-lein.

Ceir copi o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb yn Atodiad A.
Mae fersiynau ar-lein o'r ddogfen ymgynghori a'r byrddau arddangos ar gael o hyd yn https://www.llyw.cymru/cynllun-adnewyddu-pont-afon-dyfrdwyr-a494.

### 3.2 Rhadbost

Cafodd cyfeiriad rhadbost penodol (*Rhadbost A494*) ei greu ar gyfer y cyfnod ymgynghori. Derbyniwyd ymatebion yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno.

### 3.3 E-bost

Cafodd cyfeiriad e-bost penodol (*A494RiverDeeBridgeConsultation@gov.wales*) ei greu ar gyfer y cyfnod ymgynghori. Defnyddiwyd y cyfeiriad hwn i gysylltu â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys aelodau etholedig lleol, cyrff trafnidiaeth, grwpiau amgylcheddol, mudiadau cymunedol a busnesau. Ceir rhestr o'r rhanddeiliaid a'r sefydliadau y cysylltwyd â nhw yn Atodiad B.

### 3.4 Sesiwn i aelodau lleol – Dydd Mawrth 10 Rhagfyr 2024

Cynhaliwyd sesiwn briffio ar gyfer aelodau etholedig lleol ddydd Mawrth 10 Rhagfyr 2024 yn Eglwys St Andrew, Garden City, CH5 2HN. Roedd byrddau arddangos yn egluro'r prosiect a'r opsiynau, gyda chyflwyniad gan aelodau tîm y prosiect. Cynhaliwyd sesiwn ar-lein gyda'r nos i bobl nad oeddent yn gallu mynd i'r digwyddiad.

### 3.5 Arddangosfa gyhoeddus – Dydd Mawrth 21 Ionawr 2025

Cynhaliwyd arddangosfa i'r cyhoedd yn Eglwys St Andrew, Garden City, CH5 2HN, ddydd Mawrth 21 Ionawr 2025 rhwng 10am a 7pm. Roedd byrddau arddangos yn egluro'r prosiect a'r opsiynau, yn ogystal â holiaduron papur a deunyddiau ymgynghori eraill. Roedd aelodau o dîm y prosiect yn bresennol i drafod cynigion y cynllun. Mae disgrifiad o gynnwys y byrddau arddangos isod. Mae fersiynau ar-lein o'r byrddau ar

gael o hyd yn https://www.llyw.cymru/cynllun-adnewyddu-pont-afon-dyfrdwyr-a494.

| Bwrdd | Disgrifiad o'r cynnwys |
|---|---|
| 1 | Cyflwyniad a chefndir y cynllun |
| 2-3 | Sut y datblygwyd ateb a beth yw amcanion y cynllun |
| 4 | Trosolwg o’r gwahanol opsiynau |
| 5-9 | Lluniadau manwl o Opsiwn B, C, D, E ac F |
| 10-11 | Manylion Opsiwn E (yr opsiwn sy’n perfformio orau) |
| 12 | Cynigion teithio llesol (yn gyffredin i bob opsiwn) |
| 13 | Rheoli effeithiau’r cynllun (adeiladu, yr amgylchedd) |
| 14 | Sut mae gwneud sylwadau? |

## 3.6 Cyfryngau ymgynghori a chyhoeddusrwydd

### 3.6.1 Llythyr drwy’r post

Anfonwyd llythyr at yr holl breswylwyr a oedd yn byw o fewn tua 100m i ardal yr astudiaeth. Roedd hyn yn cynnwys tua 860 eiddo mewn ardaloedd preswyl fel Claremont Avenue, Sealand Avenue a Dundas Street. Ar ôl cael adborth yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, bydd yr ardal bost ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol yn cael ei hymestyn i gynnwys Manor Road.

### 3.6.2 Posteri

Cafodd posteri’n hysbysebu’r ymgynghoriad a’r digwyddiad arddangos cyhoeddus eu gosod mewn lleoliadau cyhoeddus ger Pont Afon Dyfrdwy yr A494. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy
- ASDA Queensferry
- Tŷ Calon
- Old Bank Café
- Master Fryer
- Deeside Vinyl
- APW Right & Sons
- Caffi Just Jo’s

### 3.6.3 Datganiad i’r wasg

Rhannwyd datganiadau i’r wasg â chyfryngau cenedlaethol gan gynnwys y BBC, ITV Global, Wales Online a’r Daily Post. Fe’u dosbarthwyd hefyd i’r cyfryngau lleol megis The Leader a Deeside.com. Rhannwyd datganiadau i’r wasg ar gyfer y cerrig milltir canlynol yn ystod yr ymgynghoriad:

- Lansio’r ymgynghoriad ddydd Mawrth 9 Rhagfyr 2024
- Nodyn atgoffa am y digwyddiad arddangos cyhoeddus ddydd Mawrth 21 Ionawr

2025

Cafodd y broses ymgynghori hefyd ei hysbysebu ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA). Rhannwyd newyddion am yr ymgynghoriad yn ehangach ar wahanol grwpiau cyfryngau cymdeithasol lleol.

## 4. Adborth yr Ymgynghoriad

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Cafwyd 154 o ymatebion i'r ymgynghoriad. O'r rhain, roedd 77% drwy ffurflen ar-lein, 4% drwy ffurflen bapur ac roedd y 19% arall dros e-bost. Gan fod y rhan fwyaf o negeseuon e-bost yn cynnwys naill ai ymatebion ffurfiol gan randdeiliaid neu sylwadau cyffredinol, maent yn cael eu dadansoddi ar wahân i ymatebion ffurflen yr arolwg.

Mae'r ymatebion i'r arolwg yn cael eu dadansoddi yn Adran 4.1, gydag adborth wyneb-yn-wyneb yn cael ei ddadansoddi yn Adran 4.2 ac adborth e-bost yn cael ei ddadansoddi yn Adran 4.3.

Cafodd unigolion a sefydliadau eu hannog i ymateb i gwestiynau a oedd wedi'u nodi ar brofforma ffurflen ymateb, y gellid ei gyflwyno drwy radbost i Lywodraeth Cymru, drwy anfon e-bost i gyfeiriad e-bost penodol y prosiect, neu drwy gyflwyno ymateb ar-lein gan ddefnyddio gwefan Llywodraeth Cymru.

Roedd y cwestiynau wedi'u dylunio i gael adborth ar yr opsiynau ac i helpu i lywio gwaith dylunio a datblygu, gyda'r bwriad o nodi materion, pryderon neu awgrymiadau ar gyfer gwella.

### 4.1 Dadansoddiad o adborth yr arolwg

Cafwyd cyfanswm o 125 o ffurflenni ymateb i'r arolwg. Roedd hyn yn cynnwys 119 o ymatebion ar-lein a chwe ymateb papur. Cafodd yr holl ymatebion eu casglu ynghyd mewn un gronfa ddata i ddarparu dadansoddiad o'r ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad. Cyflwynwyd pob ymateb yn Saesneg.

Mae canlyniad pob cwestiwn isod. Mae'r graffiau'n dangos y themâu allweddol a godwyd amlaf gan ymatebwyr wrth ateb pob cwestiwn. Roedd y themâu hyn yn deillio o adolygiad systematig o ymatebion testun rhydd a chawsant eu diweddaru wrth i ragor o ymatebion ddod i law.

Oherwydd natur testun rhydd yr ymatebion, gellid neilltuo nifer o themâu i un ymateb. Mae'r dadansoddiad isod o'r data ym mhob cwestiwn yn cynnwys nifer yr ymatebwyr a soniodd am thema benodol mewn ymateb i bob cwestiwn. Cyfrifwyd hyn yn ganran o gyfanswm themâu'r ymatebion.

Yn y tablau isod, mae 'Arall/Misc.' yn cyfeirio at themâu amrywiol a godwyd ac nad oeddent yn cael eu hystyried yn berthnasol i'r cynllun hwn, a themâu a oedd o dan 1% o gyfanswm themâu'r ymatebion. Mae canran yr ymatebion 'dim sylw' wedi cael ei chynnwys hefyd.

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n byw neu'n gweithio ger Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494?**

Roedd yn ofynnol i bob ymatebydd (125) ateb y cwestiwn hwn. Mae'r ymatebion i Gwestiwn 1 isod yn dangos bod tua thri chwarter yr ymatebwyr wedi dweud eu bod yn byw a/neu'n gweithio ger Pont Afon Dyfrdwy yr A494. Mae cwestiwn 11 yn rhoi

manylion codau post ymatebwyr lle nodir hynny.

| Ateb | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Byw | 50% |
| Gweithio | 10% |
| Y naill na'r llall | 22% |
| Byw a gweithio | 16% |
| Ymateb annilys | 2% |

**Cwestiwn 2: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar Opsiwn E (yr opsiwn sy'n perfformio orau) ar gyfer adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494?**

Mae'r themâu allweddol ar gyfer Cwestiwn 2 wedi'u crynhoi isod. Cafwyd 115 o ymatebion i'r cwestiwn hwn a 175 o gyfeiriadau at themâu unigol. Mae'r canrannau a gyflwynir isod yn gyfrannau o'r 175 o gyfeiriadau unigol at themâu.

| Thema | Canran themâu ymatebion |
|---|---|
| Yn cefnogi opsiwn E | 28.0% |
| Pryderon am dagfeydd a chapasiti | 25.7% |
| Tarfu yn ystod y gwaith adeiladu | 9.7% |
| Ddim yn cefnogi Opsiwn E | 7.4% |
| Pryderon am ddulliau teithio llesol cyd-ddefnyddio | 6.9% |
| Dim sylw | 5.7% |
| Ymateb Arall/Misc. | 5.1% |
| Rhwystredig oherwydd oedi / Eisiau gweld cynnydd | 5.1% |
| Cefnogi gwelliannau i deithio llesol | 4.0% |
| Pryderon am Riverside Way | 2.3% |

Roedd cefnogaeth i Opsiwn E fel ateb rhesymegol ac effeithlon (28% o themâu ymatebion). Roedd sylwadau cefnogol yn nodi y byddai pont arall oddi ar y ffordd yn lleihau'r tarfu yn ystod y gwaith adeiladu. Nododd eraill fod y mesurau teithio llesol yn fuddiol (4.0% o themâu ymatebion). Roedd awydd i newid y bont cyn gynted â phosib, gan gynnwys rhwystredigaeth am oedi blaenorol i'r cynllun (5.1% o themâu ymatebion).

Canfu'r cwestiwn hwn fod ymatebwyr yn poeni am dagfeydd ar yr A494 ac roeddent yn mynegi awydd i gael mwy o gapasiti ar y briffordd (25.7% o themâu ymatebion). Codwyd hyn gan rai o'r bobl nad oeddent yn cefnogi Opsiwn E yn ogystal â'r rhai a oedd yn cefnogi Opsiwn E. Roedd rhai ymatebion yn codi'r thema hon mewn perthynas â mynd i'r afael â'r tagfeydd presennol ar yr A494, gan deimlo bod y trefniant dwy lôn presennol yn 'dagfa' i draffig. Teimlai eraill y dylid dylunio pont newydd gyda mwy o gadernid o ran tai a thwf economaidd yn yr ardal yn y dyfodol, er enghraifft drwy ychwanegu trydedd lôn at y cynigion. Teimlai rhai ymatebwyr fod y cynllun yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i fynd i'r afael â'r materion hyn, ac y dylai'r opsiynau a gyflwynwyd ystyried ychwanegu capasiti at y rhwydwaith priffyrdd.

Roedd rhai ymatebion yn sôn am y risg o darfu ar draffig a thrigolion yn ystod y cam adeiladu ac roeddent yn dymuno gweld cyn lleied â phosib o hyn (9.7% o themâu ymatebion). Thema arall yr ymatebion oedd pryderon am y llwybr teithio llesol cyd-ddefnyddio, gan gynnwys y risg o wrthdaro rhwng gwahanol ddefnyddwyr (6.9%).

**Cwestiwn 3: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar unrhyw un o'r opsiynau eraill ar gyfer adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494?**

Mae'r themâu allweddol ar gyfer Cwestiwn 3 wedi'u crynhoi isod. Cafwyd 79 o ymatebion i'r cwestiwn hwn a 151 o gyfeiriadau at themâu unigol. Mae'r canrannau a gyflwynir isod yn gyfrannau o'r 151 o gyfeiriadau unigol at themâu.

| Thema | Canran themâu ymatebion |
|---|---|
| Dim sylw | 30.5% |
| Pryderon am dagfeydd a chapasiti | 24.5% |
| Yn cefnogi opsiwn E | 8.6% |
| Yn ffafrio pont â strwythur deuol | 6.0% |
| Tarfu yn ystod y gwaith adeiladu | 5.3% |
| Arall/Misc. | 4.6% |
| Cymorth Opsiwn C | 4.0% |
| Rhwystredig oherwydd oedi / Eisiau gweld cynnydd | 3.3% |
| Cymorth Opsiwn B | 3.3% |
| Pryderon am y llwybr teithio llesol | 2.6% |
| Cynyddu'r terfyn cyflymder o 50mya | 2.6% |
| Barn negyddol am yr ymgynghoriad | 2.0% |
| Ddim yn cefnogi'r strwythur dwbl | 1.3% |
| Cefnogi Opsiwn D | 0.7% |
| Cefnogi Opsiwn F | 0.7% |

Yn yr un modd â Chwestiwn 2, roedd pryder am dagfeydd ar yr A494 ac awydd am fwy o gapasiti priffyrdd i fynd i'r afael â hyn yn thema allweddol a oedd yn codi (24.5% o themâu ymatebion). Teimlai rhai na fyddai'r holl opsiynau a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad yn mynd i'r afael â'r materion hyn. Roedd nifer o ymatebwyr yn ailadrodd eu sylwadau o Gwestiwn 1.

Er bod y cwestiwn hwn yn ymwneud ag opsiynau eraill, roedd sylwadau cefnogol o hyd ar gyfer Opsiwn E (8.6% o themâu ymatebion). Ar wahân i hyn, Opsiwn C oedd yr opsiwn nesaf a oedd yn cael ei gefnogi fwyaf (4.0% o themâu ymatebion), ac yna Opsiwn B (3.3% o themâu ymatebion), Opsiwn D ac F (0.7% o themâu ymatebion yn y drefn honno). Thema arall a ddaeth i'r amlwg oedd awydd am bont strwythur deuol (6.0% o themâu ymatebion) a oedd yn cael ei hystyried yn fwy gwydn, gan y gellid ei defnyddio fel llwybr dargyfeirio pe bai'n rhaid cau un strwythur.

Roedd rhywfaint o gefnogaeth i gynyddu'r terfyn cyflymder ar y rhan hon o'r A494 o 50mya fel y mae ar hyn o bryd (2.6% o themâu ymatebion).

**Cwestiwn 4: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y cyfleusterau**

**cerdded, olwyno a beicio arfaethedig?**

Mae'r themâu allweddol ar gyfer Cwestiwn 4 wedi'u crynhoi isod. Cafwyd 93 o ymatebion i'r cwestiwn hwn a 159 o gyfeiriadau at themâu unigol. Mae'r canrannau a gyflwynir isod yn gyfrannau o'r 159 o gyfeiriadau unigol at themâu.

| Thema | Canran themâu ymatebion |
|---|---|
| Cefnogi cynigion teithio llesol | 28.3% |
| Dim sylw | 20.1% |
| Ddim yn cefnogi cynigion | 11.3% |
| Diogelwch a hygyrchedd | 8.8% |
| Cysylltiadau â rhwydwaith ehangach | 8.2% |
| Gwahanu oddi wrth draffig | 6.9% |
| Defnyddio'r Bont Las yn lle | 4.4% |
| Arall/Misc. | 3.8% |
| Goleuadau a Theledu Cylch Cyfyng | 3.8% |
| Gwahanu oddi wrth gerddwyr | 3.1% |
| Ddim yn beicio | 1.3% |

Cefnogaeth i'r cynigion teithio llesol oedd y thema fwyaf cyffredin a nodwyd ar gyfer y cwestiwn hwn (28.3% o themâu ymatebion). Roedd rhywfaint o bwyslais ar yr angen i'r cyfleusterau gysylltu â'r rhwydwaith ehangach (8.2% o themâu ymatebion), gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru a'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

Nid oedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion gan eu bod yn teimlo na fyddai'r cyfleusterau'n cael eu defnyddio'n dda ac na fyddent yn cynnig gwerth da am arian (11.3% o themâu ymatebion).

Roedd awydd hefyd i'r llwybr fod ar wahân i draffig (6.9% o themâu ymatebion), gyda rhai'n teimlo na fyddai bod wrth ymyl yr A494 yn ddiogel nac yn ddeniadol i ddarpar ddefnyddwyr oherwydd sŵn a chyflymder y traffig. Roedd rhai'n awgrymu 'Pont Las' gyferbyn â Queensferry Bascule fel llwybr amgen (4.4% o themâu ymatebion) neu gyfleusterau ar wahân i gerddwyr (3.1% o themâu ymatebion) gan eu bod yn poeni am y posibilrwydd o wrthdaro ar lwybr cyd-ddefnyddio.

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys yr angen i sicrhau diogelwch a hygyrchedd pob defnyddiwr (8.8% o themâu ymatebion) a cheisiadau penodol am oleuadau a theledu cylch cyfyng (3.8% o themâu ymatebion).

**Cwestiwn 5: A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?**

Mae'r themâu allweddol ar gyfer Cwestiwn 5 wedi'u crynhoi isod. Cafwyd 74 o ymatebion i'r cwestiwn hwn a 159 o gyfeiriadau at themâu unigol. Mae'r canrannau a gyflwynir isod yn gyfrannau o'r 159 o gyfeiriadau unigol at themâu.

| Thema | Canran themâu ymatebion |
|---|---|
| Dim sylw | 32.1% |
| Pryderon am dagfeydd a chapasiti | 29.6% |
| Rhwystredig oherwydd oedi / Eisiau gweld cynnydd | 7.5% |
| Tarfu yn ystod y gwaith adeiladu | 7.5% |
| Arall/Misc. | 5.7% |
| Barn negyddol am yr ymgynghoriad | 5.7% |
| Yn cefnogi opsiwn E | 5.0% |
| Angen buddsoddi yng Ngogledd Cymru | 4.4% |
| Pryderon am y llwybr teithio llesol | 2.5% |

Codwyd themâu tebyg i'r rhai mewn cwestiynau eraill, a'r prif themâu oedd pryder am dagfeydd a'r awydd am fwy o gapasiti ar y priffyrdd (29.6% o themâu ymatebion). Roedd awydd i gwblhau'r cynllun cyn gynted â phosib (7.5% o themâu ymatebion). Cyfeiriwyd at hyn hefyd mewn ymatebion a oedd am weld mwy o fuddsoddiad yng ngogledd Cymru, gan weld yr A494 fel porth strategol i'r rhanbarth, er enghraifft i dwristiaid, ond ar hyn o bryd yn rhwystr i dwf (4.4% o themâu ymatebion).

Yn gysylltiedig â rhwystredigaeth am oedi roedd rhywfaint o feirniadaeth o benderfyniadau blaenorol yn ymwneud â chynlluniau priffyrdd lleol fel 'Llwybr Coch' Coridor Sir y Fflint yr A55 A494 ac oedi o ran cynllun yr A494. Roedd hyn hefyd yn ymddangos mewn ymatebion a oedd yn edrych yn negyddol ar yr ymgynghoriad, gan deimlo ei fod yn ymarfer costus a oedd yn cymryd llawer o amser, neu na fyddai rhywun yn gwrando ar eu hadborth (5.7% o themâu ymatebion).

Roedd pryder parhaus hefyd am darfu yn ystod cyfnod adeiladu'r cynllun a'r awydd i leihau hyn cymaint â phosib (7.5% o themâu ymatebion).

**Cwestiwn 6: Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effaith y byddai disodli Pont Afon Dyfrdwy yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau y gallai hyn eu cael?**

Mae'r themâu allweddol ar gyfer Cwestiwn 6 wedi'u crynhoi isod. Cafwyd 93 o ymatebion i'r cwestiwn hwn a 133 o gyfeiriadau at themâu unigol. Mae'r canrannau a gyflwynir isod yn gyfrannau o'r 133 o gyfeiriadau unigol at themâu.

| Thema | Canran themâu ymatebion |
|---|---|
| Dim effaith | 31.6% |
| Dim sylw | 24.1% |
| Amherthnasol i'r cynllun / ymgynghoriad | 23.3% |
| Arall/Misc. | 9.8% |
| Cyfle am arwyddion Cymraeg | 7.5% |
| Ddim yn siarad Cymraeg | 3.8% |

Y thema fwyaf cyffredin yn y cwestiwn hwn oedd na fyddai'r cynllun yn cael unrhyw effaith (31.6% o themâu ymatebion) ar y Gymraeg ac nad oedd hyn yn berthnasol i'r mater dan sylw (23.3% o themâu ymatebion). Roedd rhai ymatebion yn nodi y gellid defnyddio arwyddion ac enw'r bont (7.5% o themâu ymatebion) i hyrwyddo'r Gymraeg yn gadarnhaol.

**Cwestiwn 7: Hefyd, esboniwch sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid yr opsiynau arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac nad ydynt yn effeithio'n niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Mae'r themâu allweddol ar gyfer Cwestiwn 7 wedi'u crynhoi isod. Cafwyd 85 o ymatebion i'r cwestiwn hwn a 130 o gyfeiriadau at themâu unigol. Mae'r canrannau a gyflwynir isod yn gyfrannau o'r 130 o gyfeiriadau unigol at themâu.

| Thema | Canran themâu ymatebion |
|---|---|
| Amherthnasol i'r cynllun / ymgynghoriad | 34.6% |
| Dim sylw | 30.8% |
| Cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr ardal | 9.2% |
| Cyfle am arwyddion Cymraeg | 9.2% |
| Dim effaith | 9.2% |
| Arall/Misc. | 6.9% |

Cafodd y cwestiwn hwn ymateb tebyg i Gwestiwn 6, gyda nifer fawr o'r ymatebion yn nodi nad oedd hyn yn berthnasol i'r cynllun na'r mater dan sylw (34.6% o themâu ymatebion).

**Cwestiwn 8: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.**

Mae'r themâu allweddol ar gyfer Cwestiwn 8 wedi'u crynhoi isod. Cafwyd 41 o ymatebion i'r cwestiwn hwn a 131 o gyfeiriadau at themâu unigol. Mae'r canrannau a gyflwynir isod yn gyfrannau o'r 131 o gyfeiriadau unigol at themâu.

| Thema | Canran themâu ymatebion |
|---|---|
| Dim sylw | 64.1% |
| Pryderon am dagfeydd a chapasiti | 12.2% |
| Arall/Misc. | 7.6% |
| Angen mwy o fanylion | 6.1% |
| Tarfu yn ystod y gwaith adeiladu | 3.8% |

| Thema | Canran themâu ymatebion |
|---|---|
| Barn negyddol am yr ymgynghoriad | 3.1% |
| Ailystyried y Llwybr Coch | 2.3% |
| Eisiau rhagor o ddelweddau | 0.8% |

Codwyd themâu tebyg yn y cwestiwn hwn fel o'r blaen, fel awydd i fynd i'r afael â thagfeydd ar yr A494 ac ychwanegu capasiti priffordd (12.2% o themâu ymatebion), pryder am effaith y gwaith adeiladu (3.8% o themâu ymatebion) a barn negyddol am yr ymgynghoriad (3.1% o themâu ymatebion).

Cafwyd nifer fwy o ymatebion amrywiol i'r cwestiwn hwn gan fod nifer o randdeiliaid wedi ateb gyda sylwadau terfynol a manylion cyswllt. Roedd hefyd ceisiadau am ragor o fanylion am y cynllun wrth symud ymlaen (6.1% o themâu ymatebion).

**Cwestiwn 9: Ydych chi'n byw yng Nghymru?**

Cafwyd 125 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Rhestrir atebion Cwestiwn 9 yn y tabl isod.

| Ateb | Nifer y cyfeiriadau | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydw | 107 | 86% |
| Nac ydw | 14 | 11% |
| Dim ateb | 4 | 3% |

**Cwestiwn 10: Oes gennych chi fuddiannau busnes yng Nghymru?**

Cafwyd 125 o ymatebion i'r cwestiwn hwn (100.0% o'r 125 o ymatebion i'r arolwg). Rhestrir atebion Cwestiwn 10 yn y tabl isod.

| Ateb | Nifer y cyfeiriadau | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Oes | 42 | 34% |
| Nac oes | 74 | 59% |
| Dim ateb | 9 | 7% |

**Cwestiwn 11: Rhowch ran gyntaf cod post eich cartref**

Cafwyd 125 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Rhestrir atebion Cwestiwn 11 yn y tabl isod.

| Ateb (gan gynnwys ardal y cod post) | Nifer y cyfeiriadau | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| CH5 (Glannau Dyfrdwy a Garden City) | 39 | 31% |
| CH7 (Yr Wyddgrug a'r ardal gyfagos) | 20 | 16% |
| CH4 (Caer a'r ardal gyfagos) | 7 | 6% |

| Ateb (gan gynnwys ardal y cod post) | Nifer y cyfeiriadau | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| LL12 (ardal gogledd Wrecsam) | 4 | 3% |
| CH1 (Saughall a'r ardal gyfagos) | 3 | 2% |
| CH6 (Fflint a'r ardal gyfagos) | 2 | 2% |
| CH8 (Treffynnon a'r ardal gyfagos) | 2 | 2% |
| Arall | 48 | 38% |

#### 4.1.1 Adborth o'r arolwg rhanddeiliaid

Rhoddodd nifer o randdeiliaid a sefydliadau adborth drwy ffurflen ymateb yr arolwg:

- **Priffyrdd Cenedlaethol** – Roeddent yn mynegi eu pryder am y risg o wrthdaro ar lonydd tapro dargyfeirio/uno yng nghyffordd Riverside Way. Roeddent hefyd yn holi a yw opsiwn tair lôn wedi cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith o ddiogelu ar gyfer y dyfodol ac roeddent hefyd yn pwysleisio'r angen am gyswllt agos â nhw yn ystod y gwaith adeiladu mewn perthynas â chynlluniau cyfagos a'r angen i reoli traffig mewn ffordd gydgysylltiedig.

- **Logistics UK** – Yn cefnogi Opsiwn E ac elfennau all-lein i leihau tarfu yn ogystal â llain galed. Pwysleisiwyd yr angen i fuddsoddi mewn rhannau eraill o rwydwaith ffyrdd Cymru.

- **Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer** – Yn cefnogi newid all-lein ond roedd yn gofyn am ragor o fanylion ynghylch sut mai Opsiwn E oedd yr opsiwn a oedd yn perfformio orau a sut yr oedd yn effeithio ar rwydwaith priffyrdd rhanbarthol. Roeddent hefyd wedi gofyn i gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol aros ar agor drwy gydol y cam adeiladu, gyda mesurau lliniaru a dargyfeirio addas ar waith. Roeddent wedi gofyn am ragor o ymgysylltu a gwybodaeth am effeithiau, gwyriadau a mesurau lliniaru ar draws pob dull cyn y cam adeiladu.

- **Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio (yr Awdurdod Glo gynt)** – Nodwyd na fydd y cynllun yn effeithio ar unrhyw nodweddion cloddio glo, gan gynnwys brigiad yn ne orllewin ardal yr astudiaeth.

- **Cymdeithas Cynhyrchion Mwyngloddio** – Yn cefnogi'r cynllun a gofynnwyd i ddeunyddiau a chadwyni cyflenwi lleol gael eu defnyddio yn ystod y gwaith adeiladu.

### 4.2 Adborth wyneb-yn-wyneb

#### 4.2.1 Briffio aelodau – Dydd Llun 10 Rhagfyr 2024

Dyma'r prif adborth o'r sesiwn briffio a gynhaliwyd ar gyfer aelodau etholedig lleol:

- **Oes ddylunio'r bont bresennol** – Codwyd cwestiynau ynghylch a oes digon o oes dylunio ym mhont bresennol Afon Dyfrdwy wrth i'r strwythur newydd gael ei adeiladu.

- **Diogelu'r dyfodol** – Holwyd am yr opsiynau, gan gynnwys yr opsiwn sy'n perfformio orau, o ran a ydynt yn gallu gwrthsefyll twf economaidd a phoblogaeth yr ardal yn y dyfodol. Roedd aelodau etholedig yn tynnu sylw at y ffaith nad yw dewisiadau eraill yn lle gyrru yn ddigon da yn yr ardal leol, a bod angen capasiti priffyrdd ychwanegol. Gofynnwyd am y potensial i gefnogi capasiti yn y dyfodol drwy ddefnyddio'r llain galed.

- **Rheoli traffig** – Gofynnwyd cwestiynau am ba mor hir y bydd mesurau rheoli traffig ar waith.

- **Cost y cynllun** – Roedd cwestiwn ynghylch faint y bwriedir i'r cynllun gostio.

#### 4.2.2 Arddangosfa gyhoeddus – Dydd Mawrth 21 Ionawr 2025

Daeth tua 130 o bobl i'r arddangosfa gyhoeddus. Mae ffurflen fewngofnodi yn nodi bod y mwyafrif helaeth yn dod o ardal cod post leol CH5. Daeth nifer o randdeiliaid a chontractwyr i'r digwyddiad hefyd.

Dyma'r prif adborth o'r digwyddiad arddangos cyhoeddus:

- **Cefnogaeth eang i'r cynllun a'r opsiwn sy'n perfformio orau** – Cydnabuwyd yr angen i'r cynllun adnewyddu pont hwn symud ymlaen cyn gynted â phosib.

- **Pryder am dagfeydd** – Y prif bryder a godwyd oedd na fyddai'r opsiynau, gan gynnwys yr opsiwn sy'n perfformio orau, yn lliniaru problemau tagfeydd ar yr A494.

- **Cymorth i wella bioamrywiaeth** – Cydnabod y posibilrwydd o sgrinio sŵn i drigolion sy'n ffinio ag aliniad presennol yr A494.

- **Mynediad i gerbydau adeiladu ar Manor Road** – Daeth nifer o drigolion Manor Road yno gyda phryderon cryf am ddiogelwch ac addasrwydd y ffordd ar gyfer cerbydau adeiladu. Mae twf llystyfiant yn golygu bod angen i bobl gerdded yn y ffordd ac mae plant yn aml yn chwarae ynddi. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith nad yw rhan o'r ffordd yn briffordd fabwysiedig, a bod fferm solar yn cael ei chynnig gerllaw.

- **Sylwadau am y llwybr teithio llesol cyd-ddefnyddio** – Codwyd sylwadau am y posibilrwydd o wrthdaro rhwng gwahanol ddefnyddwyr ac a oedd y cynigion teithio llesol yn cynnig gwerth am arian.

- **Sylwadau am effaith gyffredinol y gwaith adeiladu** – Roedd y sylwadau'n cynnwys yr effaith ar draffig y rhwydwaith priffyrdd lleol yn ystod y gwaith i gysylltu'r priffyrdd newydd a'r rhai presennol.

### 4.3 Adborth E-bost

Ymatebodd cyfanswm o 29 o randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd i'r ymgynghoriad dros e-bost. Roedd yr adborth e-bost cyhoeddus yn codi themâu tebyg i'r rhai a drafodwyd yn yr adran flaenorol:

- **Yr angen i gwblhau'r cynllun cyn gynted â phosib** – mynegodd rhai rwystredigaeth am yr amser a dreuliwyd yn ymgynghori ar y cynllun.

- **Rhwystredigaeth nad oedd cynlluniau eraill fel 'Llwybr Coch' Coridor Sir y Fflint yr A55 A494 yn cael eu datblygu** – Cafwyd awgrymiadau gan rai aelodau o'r cyhoedd ar sut i ddiogelu coridor ehangach yr A494 – M56 rhwng Cymru a Lloegr yn y dyfodol.

- **Pryder am y llwybr teithio llesol cyd-ddefnyddio** – Sylwadau am y posibilrwydd o wrthdaro rhwng beicwyr a cherddwyr a / neu ddefnyddwyr eraill.

Mae'r adborth a gafwyd dros e-bost gan randdeiliaid allweddol wedi'i grynhoi isod.

- **Cyngor Sir y Fflint** – Yn cefnogi Opsiwn E gan ei fod yn sicrhau cyn lleied o effaith â phosib ar rwydwaith ffyrdd y sir. Cefnogi seilwaith gwyrdd newydd, teithio llesol a chyfleusterau llain galed. Gofynnodd am eglurhad o'r cyfyngiadau rheoli traffig cyn gynted â phosib. Mae rhywfaint o bryder y byddai'r cyfrifoldeb dros lwybrau teithio llesol yn cael ei drosglwyddo i'r Awdurdod Lleol heb gyllideb ychwanegol. Gofynnodd am ragor o wybodaeth am y mynediad ar Riverside Way a diogelwch y mynediad hwn. Gwnaed sylwadau ar ran cynghorwyr sir nad oedd opsiwn tair lôn fel yr oedd yn cael ei hyrwyddo'n flaenorol.

- **NMWTRA** – Yn cefnogi Opsiwn E a bydd yn gweithio i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â pholisi a chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dyluniad priffyrdd, yr amgylchedd, bioamrywiaeth, cynaliadwyedd a charbon. Roedd yn gofyn am ystyried diogelu'r strwythur at y dyfodol ar gyfer unrhyw gynnydd posib mewn traffig. Gofynnodd i Systemau Technoleg Gwybodaeth gael eu cynnwys i helpu i reoli'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn y dyfodol.

- **Priffyrdd Cenedlaethol** – Ailadrodd y sylwadau a wnaed drwy'r ffurflen ymateb i'r arolwg (trafodwyd yn Adran 3.1.1).

- **Cyfoeth Naturiol Cymru** – Wedi darparu sylwadau cyn cynllunio yn ymwneud â ffactorau fel perygl llifogydd cyfagos, cyrsiau dŵr a safleoedd gwarchodedig. Nodwyd bod y safle o fewn Parth Llifogydd (Afon/môr) ac felly bydd angen i'r lleoliad gael ei gyfiawnhau gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Nodwyd bod y safle o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig ac yn agos at Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Tynnwyd sylw at y ffaith y bydd angen asesiadau a mesurau lliniaru priodol yn ystod camau nesaf y dyluniad.

- **Cycling UK** – Cydnabod gwerth y cynigion teithio llesol. Nodwyd bod gan ddyluniad presennol cyffordd Riverside Way gyfleusterau croesi gweithredol sy'n defnyddio'r ynys arfaethedig sy'n agos at gerbytffordd yr A494 yr oedd ganddynt amheuon yn ei chylch. Pwysleisiwyd yr angen am gysylltiadau â rhwydwaith teithio llesol ehangach, gan gynnwys o Claremont Avenue. Awgrymwyd fod achos cryf dros lwybr amgen ar draws 'Bont Las' Queensferry Bascule a oedd yn cyd-fynd yn agosach â'r llwybr anffurfiol.

- **CADW** – Nodwyd nad yw'r un o'r opsiynau'n debygol o effeithio'n niweidiol ar Bont gyfagos Queensferry Bascule nac asedau hanesyddol dynodedig eraill. Dywedwyd y bydd sylwadau pellach yn cael eu rhoi mewn ymateb barn gwmpasu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

- **Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru** – Nodwyd y gallai fod effeithiau ar nifer o safleoedd treftadaeth heb eu dynodi.

- **Cynghorydd Sir y Fflint** – Pwysleisiodd yr angen am gapasiti ffordd ychwanegol ar y bont newydd, a bod yr opsiynau presennol yn annigonol.

- **Cyngor Cymuned Sealand** – Codwyd pryder am y posibilrwydd o ddefnyddio Manor Road fel mynediad i gerbydau adeiladu.

- **Y Cerddwyr** – Yn cefnogi cynigion, gan gynnwys gwelliannau teithio llesol. Gofynnwyd am wella nifer o lwybrau troed sydd â phroblemau presennol, fel ger Chemistry Lane. Gofynnwyd am gynnwys llwybr troed ar ochr ogleddol y bont newydd.

- **Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd** – Cadarnhawyd na fyddai'r cynllun yn effeithio ar unrhyw asedau sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth.

- **Scottish Power Energy Networks** – Gofynnwyd am gynlluniau manwl yn dangos unrhyw ryngweithio ag asedau Scottish Power a mesurau lliniaru addas.

- **Dŵr Cymru** – Nodwyd y gallai hyn effeithio ar brif bibelli codi cyhoeddus, carthffosydd budr a phrif bibelli dŵr ac y byddai angen mynediad bob amser. Tynnwyd sylw at yr angen am ragor o ymgysylltu â'r tîm diogelu asedau.

- **Severn Trent Wate**r – Cadarnhawyd y gallai fod asedau Severn Trent Water o fewn ffin y cynllun y mae angen eu dargyfeirio neu eu diogelu.

- **Virgin Media** – Asedau wedi'u cadarnhau yn y cyffiniau a allai fod angen eu dargyfeirio.

## 5. Crynodeb o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus

Mae canlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus Cam 2 WelTAG wedi'u crynhoi isod.

- Roedd 28% o themâu ymatebion Cwestiwn 2 yn dangos bod cefnogaeth i Opsiwn E fel ateb effeithiol ar gyfer disodli Pont Afon Dyfrdwy yr A494. Roedd adborth o'r ymgynghoriad yn awgrymu cefnogaeth i'r llain galed, cynigion i wella bioamrywiaeth a phont arall oddi ar y ffordd bresennol a fyddai'n amharu cyn lleied â phosib ar draffig. Roedd awydd clir i gwblhau'r cynllun cyn gynted â phosib, gyda rhywfaint o rwystredigaeth am yr un blaenorol a phwyslais ar yr A494 fel porth strategol i'r gogledd.

- Roedd 25.7% o themâu ymatebion Cwestiwn 2 yn mynegi pryder am dagfeydd ar yr A494 ac awydd am fwy o gapasiti ar y briffordd. Roedd hon yn thema allweddol a ddaeth i'r amlwg ar draws cwestiynau eraill a ofynnwyd. Roedd ymatebwyr yn poeni am y trefniant dwy lôn presennol ar yr A494 a bod hyn yn dagfa ar gyfer traffig ac yn atal twf pellach yn y rhanbarth. Teimlai eraill fod y cynllun yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ychwanegu rhagor o gapasiti i'r bont. Dywedodd nifer na fyddai unrhyw un o'r opsiynau a ddatblygwyd yn lliniaru tagfeydd nac yn gallu gwrthsefyll twf traffig ar yr A494 yn y dyfodol.

- Roedd 28.3% o themâu ymatebion Cwestiwn 4 yn dangos cefnogaeth i'r cynigion teithio llesol o'i gymharu ag 11.3% o'r themâu nad oeddent yn cefnogi'r cynigion hyn. Roedd awydd am gysylltiadau â'r rhwydwaith teithio llesol ehangach, yn ogystal â sylwadau am y posibilrwydd o wrthdaro rhwng gwahanol ddefnyddwyr ar lwybr cyd-ddefnyddio. Awgrymodd rhai y dylid defnyddio'r 'Bont Las' ger Queensferry Bascule fel llwybr arall. Thema gyffredin oedd yr awydd am ddiogelwch a gwahanu oddi wrth draffig.

- Roedd themâu eraill a ddaeth i'r amlwg yn cynnwys cwestiynau am darfu ar draffig a thrigolion yn ystod y gwaith adeiladu, addasrwydd Manor Road fel llwybr mynediad i gerbydau adeiladu a diogelwch cyffordd Riverside Way. Ar sail yr adborth hwn, bydd tîm y prosiect yn ymchwilio i lwybrau mynediad eraill sy'n addas i gerbydau adeiladu ac unrhyw ryngddibyniaethau â'r fferm solar arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth hefyd i sut y gellir gwneud cyffordd Riverside Way yn fynedfa fwy diogel a lleihau effaith y gwaith adeiladu cymaint â phosib.

### 5.1 Canlyniadau'r adborth

Mae tîm y prosiect wedi ystyried adborth gan y cyhoedd a rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Mae hyn yn cynnwys rhai o'r themâu sy'n dod i'r amlwg ac awgrymiadau neu bryderon penodol. Mae'r ymatebion llawn i'r adborth hwn i'w gweld yn Atodiad C. Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at y meysydd adborth sydd wedi cael sylw neu eu hymgorffori'n uniongyrchol yn y cynllun o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

| Mater | Canlyniad yr ymgynghoriad |
|---|---|
| Diogelu'r cynllun rhag tagfeydd yn y dyfodol | • Byddai strwythur newydd y bont yn cael ei ddylunio i ganiatáu'r potensial i droi'r lleiniau caled yn lonydd agored pe bai angen hynny yn y dyfodol. Byddai'r newid bach hwn i'r dyluniad |

| Mater | Canlyniad yr ymgynghoriad |
|---|---|
| | yn diogelu'r strwythur yn y dyfodol pe bai gofyniad i wneud hynny. |
| Addasrwydd Manor Road fel llwybr mynediad i gerbydau adeiladu | • Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd am y mater hwn, gan gynnwys gan drigolion Manor Road. O ganlyniad i'r adborth hwn, rydym wedi diwygio'r cynigion ar gyfer tir y compownd adeiladu i'r dwyrain o'r afon. Cynigir mynediad i'r compownd hwn yn awr o'r A494. |
| Dylunio cyffordd Riverside Way | • Bydd Riverside Way yn destun adolygiad o'r terfyn cyflymder 20mya. Bydd dyluniad y gyffordd yn cael ei wella lle bo hynny'n bosibl yn unol â safonau cenedlaethol. Bydd y groesfan teithio llesol hefyd yn cael ei hadolygu, gyda'r potensial iddi gael ei lleoli ymhellach i ffwrdd o gerbytffordd yr A494. |
| Effaith y gwaith adeiladu ar y rhwydwaith trafnidiaeth lleol a thrigolion | • Ar hyn o bryd, amcangyfrifir y bydd yn cymryd rhwng dwy a thair blynedd i gwblhau'r gwaith o adeiladu'r cynllun. Disgwylir i'r effaith ar y briffordd bresennol fod ar ddiwedd y cam adeiladu wrth glymu'r ffordd newydd â'r A494 bresennol. I wneud y cysylltiad, bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu hystyried er mwyn tarfu cyn lleied â phosib. Byddwn yn ymgysylltu â'r contractwr a rhanddeiliaid eraill i gefnogi'r penderfyniadau hyn. |

## 6. Penderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

Mae canlyniadau ac adborth yr ymgynghoriad wedi cael eu hymgorffori yn nadansoddiad a chanlyniadau Cam 2 WelTAG.

Dangosodd yr ymgynghoriad cyhoeddus gefnogaeth gref i ddisodli Pont Afon Dyfrdwy yr A494 cyn gynted â phosib. Roedd cefnogaeth i Opsiwn E fel ateb a fyddai'n lleihau'r effeithiau yn ystod y cam adeiladu, yn sgrinio sŵn i drigolion lleol drwy fannau gwyrdd newydd ac yn darparu cysylltiadau teithio llesol ar draws Afon Dyfrdwy.

Fodd bynnag, mae hefyd yn amlwg o'r ymgynghoriad cyhoeddus bod pryder am dagfeydd ar yr A494 a chefnogaeth i gynlluniau a allai liniaru hyn. Prif bwrpas y cynllun yw disodli Pont bresennol Afon Dyfrdwy yr A494 sydd bron â chyrraedd diwedd ei hoes. Mae angen adnewyddu'r bont cyn gynted â phosib er mwyn cynnal y cyswllt hollbwysig rhwng gogledd Cymru a gogledd orllewin Lloegr. Datblygwyd yr holl opsiynau yn unol â'r polisi presennol a Phrofion Adeiladu Ffyrdd y Dyfodol Llywodraeth Cymru.

Dylid nodi na fyddai'r bont newydd yn atal unrhyw welliannau neu addasiadau i'r briffordd yn y dyfodol, gyda dec y bont yn cael ei ledu fel rhan o'r gwaith diogelu hwn ar gyfer y dyfodol. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad hwn wrth ystyried cyd-destun ehangach prosiectau trafnidiaeth yng Nglannau Dyfrdwy a gogledd Cymru.

Ar ôl pwyso a mesur agweddau technegol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y cynllun ynghyd â'r sylwadau cadarnhaol a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru wedi penderfynu:

- Mabwysiadu Opsiwn E fel yr Opsiwn sy'n cael ei Ffafrio i fynd i'r afael â'r problemau gyda Phont bresennol Afon Dyfrdwy yr A494.

## 7. Y Camau Nesaf

Y camau nesaf ar gyfer y cynllun yw cwblhau'r dyluniad rhagarweiniol, y Datganiad Amgylcheddol ac adroddiad Cam 3 WelTAG.

Ar ôl hyn, bydd y Gorchmynion drafft yn cael eu cyhoeddi yn unol â Deddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981. Mae’r Gorchmynion drafft yn cynnwys pwerau i sefydlu llinell, addasu a chadw slipffyrdd, prynu tir a sefydlu unrhyw hawliau eraill sydd eu hangen arnom i gyflawni’r cynllun.

Bydd y Gorchmynion drafft, y Datganiad Amgylcheddol a’r Crynodeb Annhechnegol, a’r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol yn cael eu cyhoeddi a byddant ar gael yn electronig ac ar ffurf copi caled mewn lleoliadau lleol y cytunwyd arnynt er mwyn i’r cyhoedd eu gweld.

Yna, bydd cyfnod i’r bobl sydd â diddordeb yn y cynigion neu y gallai’r cynigion effeithio arnynt, wneud sylwadau a chefnogi neu wrthwynebu’r Gorchmynion drafft. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhelir hefyd Arddangosfa Gorchmynion, lle bydd y cynigion yn cael eu harddangos yn lleol a bydd tîm y prosiect yn bresennol i drafod y cynllun gydag unrhyw un yr effeithir arnynt / sydd â diddordeb.

Os derbynnir gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod hwn, efallai y bydd angen Ymchwiliad Cyhoeddus i benderfynu a ellir bwrw ymlaen â’r cynllun. Mae hyn yn dibynnu ar natur a phwysau unrhyw wrthwynebiad. Yn yr Ymchwiliad hwn, byddai Arolygydd annibynnol yn clywed ac yn ystyried y dystiolaeth o blaid ac yn erbyn y cynllun ac yn gwneud argymhelliad i Ysgrifennydd y Cabinet ar yr achos dros y cynllun. Wedyn, byddai Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried yr argymhelliad hwn ac yn penderfynu a ddylid cadarnhau’r Gorchmynion a bwrw ymlaen â’r cynllun.

Wrth i’r cynllun ddatblygu, rydym yn bwriadu parhau i ymgysylltu a rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r cyhoedd. Byd rhagor o ddigwyddiadau gwybodaeth i’r cyhoedd yn cael eu cynnal, a bydd yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei darparu ar wefan y prosiect https://www.llyw.cymru/a494-pont-afon-dyfrdwy.

## Atodiad A – Copïau o ddeunyddiau ymgynghori

**Rhif: WG51127**

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

Cynllun Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494

Dyddiad cyhoeddi: 9 Rhagfyr 2024

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 4 Mawrth 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx

**Trosolwg**

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i opsiynau i adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494.

Hoffem gael unrhyw farn neu sylwadau sydd gennych.

**Sut mae ymateb**

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal rhwng dydd Llun 9 Rhagfyr 2024 a 11.59yh ddydd Mawrth 4 Mawrth 2025. Gallwch ymateb drwy unrhyw un o'r ffyrdd a ganlyn:

Ar-lein: drwy lenwi holiadur sydd ar gael ar dudalen ymgynghori'r prosiect drwy'r ddolen hon a'r cod QR yma:

E-bost: Llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a ddarperir ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon at: YmgynghoriadA494PontAfonDyfrdwy@llyw.cymru - a rhoi 'Cynllun Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy A494' yn y llinell pwnc.

Post: Llenwi ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a ddarperir ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon yn ôl am ddim i:

*Freepost A494*

Wyneb yn wyneb: llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a ddarperir yn ystod arddangosfa gyhoeddus a gynhelir yn Eglwys Sant Andrew, Sealand Avenue, Garden City, CH5 2HN ar 21 Ionawr 2025 rhwng 10yb a 7yh.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae rhagor o wybodaeth am y Cynllun, yr opsiynau a ystyriwyd a’r opsiwn sy’n perfformio orau ar gael ar dudalen ymgynghori’r prosiect.

Cod QR gwefan y prosiect:

Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

E-bost: YmgynghoriadA494PontAfonDyfrdwy@llyw.cymru

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru a'i hymgynghorwyr penodedig fydd yn rheoli data Cynllun Pont Afon Dyfrdwy A494 ac unrhyw ddata personol a ddarperir gennych fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol, a bydd hyn yn eu galluogi i ddefnyddio'r wybodaeth i wneud penderfyniadau am sut byddant yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i gyflawni rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Erthygl 6(1)(e))

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw neu'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, gall hyn hefyd gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Os bydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi mwy ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'n bosibl y bydd trydydd parti achrededig (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) yn cael ei gomisiynu i gyflawni'r gwaith hwn. Dim ond dan gontract y bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

I ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych chi'n dymuno i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig pan fyddwch chi'n anfon eich ymateb. Byddwn yn eu golygu wedyn cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gallai fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i ddatgelu rhywfaint o wybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau a gyhoeddir eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata sy'n cael ei gadw fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am ddim mwy na thair blynedd.

Eich hawliau chi

Dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi hawl:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael ei gadw amdanoch chi, ac i gael gweld y data hwnnw
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu atal prosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- i'ch data gael ei 'ddileu' (mewn rhai amgylchiadau)
- i gludadwyedd data (mewn rhai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'n cael ei defnyddio neu, os ydych chi eisiau arfer eich hawl o dan Reoliad GDPR y DU, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: dataprotectionofficer@gov.wales

Dyma'r manylion ar gyfer cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Cynnwys

Cynnwys ... 5
Cyflwyniad ... 6
Pam mae angen pont newydd? ... 6
Datblygu atebion ... 6
Yr opsiwn sy’n perfformio orau ... 7
Opsiynau eraill ... 8
Ymweld â’n harddangosfa gyhoeddus ... 9
Y camau nesaf ... 9
Ffurflen Ymateb i’r Ymgynghoriad ... 10

## Cyflwyniad

Rydym yn gweithio ar gynigion i adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494. Rydym yn gwneud hyn gan fod cyflwr y bont wedi dirywio.

Rydym wedi adolygu nifer o opsiynau i adnewyddu’r bont ac wedi nodi opsiwn sy’n perfformio orau, ac rydym yn gofyn am eich adborth arno.

## Pam mae angen pont newydd?

Mae Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494 yn gysylltiad hanfodol ar gyfer traffig trawsffiniol rhwng gogledd Cymru, gogledd orllewin Lloegr a thu hwnt, gan gysylltu pobl, cymunedau a busnesau.

Mae’r bont yn cludo oddeutu 68,400 o gerbydau bob dydd*. Mae’r lefel hon o draffig yn golygu y byddai cau’r bont i newid y rhannau sydd wedi dirywio yn amharu’n ddifrifol ar bobl sy’n teithio yn yr ardal ac yn cael effaith niweidiol ar yr economi yng ngogledd Cymru.

Mae’r angen am bont newydd yn cael ei yrru gan gyflwr strwythurol gwael dec presennol y bont. Mae’r arolygiadau a’r gwaith monitro hyd yma wedi dod i’r casgliad bod amlder y gwaith atgyweirio a’r risg o waith atgyweirio ac ymyrryd mawr sy’n golygu cau’r bont yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

** Llif dyddiol saith diwrnod ar gyfartaledd yn seiliedig ar ddata cyfrif 2024.*

## Datblygu atebion

Yn 2018, fe wnaethom gynnal gwerthusiad a oedd yn edrych ar opsiynau i adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494. Yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i’r Adolygiad Ffyrdd ym mis Chwefror 2023, rydym wedi adolygu Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth y Cynllun fel eu bod yn cyd-fynd â’r pedwar prawf adeiladu ffyrdd newydd.

Cafodd y Cynllun ei ailwerthuso gan ddefnyddio’r Arweiniad diweddaraf ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024. Drwy ddeall y materion cyfredol a’r heriau i’r dyfodol, gwnaethom nodi pum opsiwn posibl sy’n ceisio cyflawni amcanion y Cynllun.

Rydym nawr yn ymgynghori ar yr opsiwn sy’n perfformio orau o’r asesiad hwn, yn ogystal ag opsiynau eraill ar y rhestr fer a ystyriwyd gennym.

## Yr opsiwn sy'n perfformio orau

Fe wnaethom asesu amrywiaeth o opsiynau fel rhan o'r cam hwn o WelTAG. Opsiwn E oedd yn perfformio orau ac mae'n cynnwys adeiladu pont newydd i gludo **dwy lôn** o draffig tua'r dwyrain a'r gorllewin a **llwybr cyd-ddefnyddio** ar gyfer beicwyr a cherddwyr.

Byddai'r bont newydd yn cael ei lleoli i'r de-ddwyrain o bont bresennol Afon Dyfrdwy ar yr A494. Cynigir bod y gwaith adeiladu'n cael ei wneud oddi ar y briffordd bresennol er mwyn i'r ffordd aros ar agor yn ystod y rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu.

Dyma'r prif nodweddion eraill:

- **Gwelliannau i'r A494 bresennol** i'r dwyrain o le mae'r ffordd yn pasio o dan Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru. Byddai hyn yn cynnwys cyflwyno llain galed newydd i bob cyfeiriad sy'n cysylltu â'r lleiniau caled presennol i'r dwyrain o Afon Dyfrdwy, gwella aliniad a systemau draenio cynaliadwy.
- **Mynedfa/allanfa newydd** i adael yr A494 tuag at ardal Glan yr Afon, ychydig heibio i groesfan yr afon. Bydd defnyddwyr y ffordd hefyd yn gallu ymuno â'r A494 o'r un gyffordd, gan droi i'r chwith i gyfeiriad Queensferry.
- **Hyd at 3km o lwybrau cerdded a beicio newydd a gwell** sy'n cysylltu â Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr 568 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, Queensferry a Garden City.
- **Gwyro 'Draen Queensferry'** (prif afon Cyfoeth Naturiol Cymru), sydd ar ochr de ddwyreiniol yr A494 ac sy'n llifo ar hyn o bryd mewn ceuffos oddi tani, i'r gorllewin o Reilffordd Arfordir Gogledd Cymru ac mewn sianel agored i'r dwyrain o'r rheilffordd. Byddai darnau newydd o sianel agored yn cael eu darparu'r naill ochr a'r llall i'r rheilffordd gyda rhan o'r cylfat presennol o dan y rheilffordd yn cael ei chadw.
- **Byddai gofer draenio newydd i Afon Dyfrdwy yn cael ei chreu** a byddai Gorsaf Bwmpio newydd yn cael ei darparu i'r gorllewin o Afon Dyfrdwy ar gyfer Draen Queensferry.
- **Gwaith lliniaru amgylcheddol a gwella bioamrywiaeth** gan gynnwys lleiniau blodau gwyllt, pantiau, planhigfeydd coetiroedd brodorol a glaswelltir amwynder.

Mae mwy o wybodaeth am yr opsiwn sy'n perfformio orau ar gael ar y [dudalen ymgynghori](#).

## Opsiynau eraill

Er mai Opsiwn E sy'n perfformio orau, byddem hefyd yn croesawu eich barn a'ch sylwadau ar yr opsiynau eraill a ystyriwyd gennym:

**Opsiwn B** – Pont dau strwythur newydd dros Afon Dyfrdwy ynghyd â chyswllt teithio llesol yn rhan o isbont y rheilffordd bresennol

- Byddai hyn yn golygu dwy bont newydd yn lle'r bont bresennol dros Afon Dyfrdwy.
- Byddai'r gwaith ar y rheilffordd yn cael ei leihau drwy ailwampio'r llain ymyl ffordd bresennol drwy'r strwythur i hwyluso llwybr teithio llesol.
- Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell.

**Opsiwn C** – Pont dau strwythur newydd dros Afon Dyfrdwy ynghyd â thanbont reilffordd ar wahân ar gyfer teithio llesol

- Byddai hyn yn golygu dwy bont newydd yn lle'r bont bresennol dros Afon Dyfrdwy.
- Byddai tanbont newydd yn cael ei hadeiladu drwy arglawdd y rheilffordd ar gyfer llwybr teithio llesol.
- Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell.

**Opsiwn D** – Pont un strwythur newydd oddi ar y ffordd bresennol dros Afon Dyfrdwy ynghyd â thanbont reilffordd newydd tua'r gorllewin

- Byddai hyn yn golygu cael pont newydd yn agos iawn at y bont bresennol dros Afon Dyfrdwy.
- Byddai'r bont bresennol dros yr afon naill ai'n cael ei hailbwrpasu ar gyfer defnydd nad yw'n ymwneud â moduron neu'n cael ei dymchwel.
- Byddai tanbont newydd yn cael ei hadeiladu drwy arglawdd y rheilffordd ar gyfer traffig ffordd i'r gorllewin a llwybr teithio llesol.
- Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell.

**Opsiwn E** – Pont un strwythur newydd oddi ar y ffordd bresennol dros Afon Dyfrdwy ynghyd â chyswllt teithio llesol yn rhan o danbont y rheilffordd bresennol

- Byddai hyn yn golygu cael pont newydd yn agos iawn at y bont bresennol dros Afon Dyfrdwy.
- Byddai'r gwaith ar y rheilffordd yn cael ei leihau drwy ailwampio'r llain ymyl ffordd bresennol drwy'r strwythur i hwyluso llwybr teithio llesol.
- Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell.

**Opsiwn F** – Pont un strwythur newydd oddi ar y ffordd bresennol dros Afon Dyfrdwy ynghyd â thanbont reilffordd ar wahân ar gyfer teithio llesol.

- Byddai hyn yn golygu cael pont newydd yn agos iawn at y bont bresennol dros Afon Dyfrdwy.

- Byddai tanbont newydd yn cael ei hadeiladu drwy arglawdd y rheilffordd ar gyfer llwybr teithio llesol.
- Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell.

Mae mwy o wybodaeth am yr opsiynau eraill ar gael ar y dudalen ymgynghori.

## Ymweld â'n harddangosfa gyhoeddus

Rydym yn cynnal arddangosfa gyhoeddus lle gallwch weld yr wybodaeth hon a chwrdd â thîm y prosiect a fydd yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

**Pryd?** Rhwng 10yb a 7yh ddydd Mawrth 21 Ionawr 2025

**Ble?** Eglwys Sant Andrew, Sealand Avenue, Garden City, CH5 2HN

## Y camau nesaf

Byddwn yn adolygu pob sylw ac awgrym ar ôl i ymgynghoriad cyhoeddus Cam 2 WelTAG gael ei gau. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth Gogledd Cymru yn ystyried canlyniadau'r ymarfer ymgynghori hwn wrth wneud penderfyniad ar yr opsiwn a ffefrir. Byddwn yn cynhyrchu adroddiad i grynhoi'r ymatebion adborth.

Bydd diweddariadau ar gynnydd y Cynllun yn cael eu darparu ar wefan y prosiect.

## Ffurflen Ymateb i’r Ymgynghoriad

Eich enw:

| |
|---|
| |

Sefydliad (os yw’n berthnasol):

| |
|---|
| |

E-bost / rhif ffôn:

| |
|---|
| |

Eich cyfeiriad:

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 1:**

Ydych chi’n byw neu’n gweithio ger Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494 (Rhowch gylch fel sy’n briodol)

| |
|---|
| Byw / Gweithio / Dim un o’r rhain |

**Cwestiwn 2:**

A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar Opsiwn E (yr opsiwn sy’n perfformio orau) ar gyfer adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494?

**Cwestiwn 3:**

A oes gennych unrhyw sylwadau ar unrhyw un o’r opsiynau eraill ar gyfer adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494?

**Cwestiwn 4:**

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y cyfleusterau cerdded, olwyno a beicio arfaethedig? (Byddai’r rhain yn cael eu cynnwys ym mhob opsiwn a gyflwynir)

**Cwestiwn 5:**

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?

**Cwestiwn 6:**

Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effaith y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 7:**

Hefyd, esboniwch sut rydych yn credu y gellid ffurfio neu newid y camau arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac nad ydynt yn effeithio'n niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 8:**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Mae ymatebion i ymgyngoriadau'n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: ☐

**Y Camau Nesaf**

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 4 Mawrth 2025. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu dadansoddi a bydd Ymateb gan Lywodraeth Cymru i ddilyn.

## Ffurflen ymateb i'r Ymgynghoriad

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n byw neu'n gweithio ger Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494?

Byw ☐

Gweithio ☐

Nid yw'r un o'r rhain ☐

**Cwestiwn 2:** A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar Opsiwn E (yr opsiwn sy'n perfformio orau) ar gyfer adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494

**Cwestiwn 3:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar unrhyw un o'r opsiynau eraill ar gyfer adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494?

**Cwestiwn 4:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y cyfleusterau cerdded, olwyno a beicio arfaethedig?

Byddai'r rhain yn cael eu cynnwys ym mhob opsiwn a gyflwynir.

**Cwestiwn 5:** A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?

**Cwestiwn 6:** Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effaith y byddai’r diwygiadau arfaethedig yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi’n credu y byddai? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 7:** Hefyd, esboniwch sut rydych yn credu y gellid ffurfio neu newid y dewisiadau arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, ac nad ydynt yn effeithio’n niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 8:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i’r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

| |
|---|
| |

**Cyflwynwch eich ymateb**

**Ydych chi'n byw yng Nghymru?**

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Dim ateb ☐

**Oes gennych chi ddiddordeb busnes yng Nghymru?**

Oes ☐

Nac oes ☐

Dim ateb ☐

**Rhowch ran gyntaf côd post eich cartref e.e. CF10**

**Rydych ar fin cyflwyno'ch ymateb. Gwnewch yn siŵr eich bod yn hapus gyda'ch atebion cyn danfon.**

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

Er mwyn gallu rhoi derbynneb i'ch ymateb, rhowch gyfeiriad e-bost dilys.

Cyfeiriad e-bost:

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddienw (gan gynnwys cyfeiriadau ebost) ticiwch y blwch.

Cadw fy ymateb yn ddienw. ☐

# Atodiad B – Rhestr o randdeiliaid a gafodd holiaduron yr ymgynghoriad

**Y Cyhoedd**
- O fewn 100m i’r cynllun

**Grwpiau cymunedol lleol**
- Ymddiriedolaeth Gymunedol Glannau Dyfrdwy
- Canolfan FDF ar gyfer Byw'n Annibynnol

**Grwpiau lleiafrifol**
- Cymuned Sipsiwn a Theithwyr Riverside
- Cymdeithas Ddiwylliannol Fwslimaidd Sir y Fflint
- Cymdeithas Islamaidd Cymru
- LGBT Gogledd Cymru

**Busnesau**
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
- Siambr Fasnach Gorllewin Swydd Gaer a Gogledd Cymru
- Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy
- Twristiaeth Gogledd Cymru
- Uchelgais Gogledd Cymru
- Airbus

**Awdurdod lleol**
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer

**Gwleidyddol (AS a MS)**
- Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
- Aelodau Etholaethol y Senedd - Alun a Glannau Dyfrdwy
- Aelod Rhanbarthol o’r Senedd - Gogledd Cymru
- AS Alun a Glannau Dyfrdwy
- AS Dinas Caer
- AS Ellesmere Port a Neston

**Cyngor Sir y Fflint (Aelodau lleol)**
- Aston
- Mancot
- Queensferry a Sealand
- Dwyrain Shotton a Shotton Uchaf
- Gorllewin Shotton
- Canol Cei Connah
- Golftyn Cei Connah
- Wepre Cei Connah
- Ewloe
- Treuddyn

- Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth
- Arweinydd y cyngor
- Aelod Cabinet dros Gynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Diogelu'r Cyhoedd

**Cynghorau Tref a Chymuned**
- Cyngor Cymuned Queensferry
- Cyngor Cymuned Sealand
- Cyngor Cymuned Penarlâg
- Cyngor Tref Shotton
- Cyngor Cymuned Brychdyn a Bretton
- Cyngor Tref Cei Connah
- Cyngor Plwyf Saughall a Shotwick Park
- Cyngor Cymuned Treuddyn
- Cyngor Tref Neston
- Cyngor Plwyf Sifil Mollington

**Sefydliadau trafnidiaeth**
- Trafnidiaeth Cymru
- Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
- Priffyrdd Cenedlaethol
- Network Rail
- Y Gymdeithas Cludo Llwythi / Logistics UK
- Y Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd Cyf

**Gwasanaethau brys / iechyd y cyhoedd**
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru

**Ymgymerydd statudol (Cynradd)**
- Scottish Power Energy Networks Ltd
- Dŵr Cymru Welsh Water
- Severn Trent
- Dŵr Hafren Dyfrdwy
- Wales & West Utilities
- British Gas
- Openreach
- Zayo Group UK Limited

**Ymgymerydd statudol (Arall)**
- Npower
- E.ON UK
- Magnox Ltd (Gwasanaethau Adfer Niwclear erbyn hyn)
- Cable & Wireless Communications UK

- Cadent Gas Ltd
- National Grid UK
- Virgin Media Limited
- Fibrespeed Ltd (Cysylltu Cymru Ddigidol)
- Vodafone

**Grwpiau diddordeb Priffyrdd / Hawliau Tramwy**
- Rhwydwaith Hawl i Reidio (SCOPE)
- Cycling UK
- Beicio Cymru
- Sustrans Cymru
- Cymdeithas Ceffylau Prydain
- Y Cerddwyr
- Y Gymdeithas Mannau Agored
- Welsh Trail Riders Association (WTRA) Ltd

**Arall**
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- CADW
- Yr Awdurdod Glo
- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
- Cydbwyllgor Ymgynghorol ANOB Bryniau Clwyd
- Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys (Heneb)
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Pwyllgor Sefydliad Materion Cymreig Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd (neu Glandŵr Cymru, Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd Cymru)
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Sefydliad Seilwaith Amddiffyn
- Awdurdod Cymwys Rheoli peryglon damweiniau mawr (COMAH)
- RSPB (Grŵp Lleol Gogledd Cymru)
- Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
- Bysiau P&O
- Trenau / Bysiau Arriva Cymru
- National Express
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (Cymru)

# Atodiad C: Ymateb i adborth

1. **C: Cynigiwyd yn flaenorol opsiwn tair lôn. Pam nad yw hyn wedi'i gyflwyno erbyn hyn?**

   A: Mae angen y Cynllun oherwydd bod Pont bresennol Afon Dyfrdwy ar yr A494 wedi cyrraedd diwedd ei hoes. Mae'r bont yn hanfodol i gynnal cysylltedd ar hyd coridor yr A494 yng ngogledd Cymru.

   Yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Ffyrdd ym mis Chwefror 2023, cafodd Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth y Cynllun eu hadolygu fel eu bod yn cyd-fynd â'r pedwar prawf adeiladu ffyrdd. Cafodd y Cynllun wedyn ei ailwerthuso gan ddefnyddio'r Arweiniad diweddaraf ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG). Mae ystyriaethau ar gyfer y Cynllun yn cynnwys peidio â chynyddu capasiti ar gyfer mwy o gerbydau, lleihau allyriadau carbon ac annog newid i ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio.

   O ganlyniad, nid oedd yr opsiynau a oedd ag aliniadau tair lôn yn perfformio cystal ag opsiynau dwy lôn yng nghamau cynnar astudiaeth WelTAG.

   Mae'r opsiynau dwy lôn yn cyd-fynd yn well â'n polisïau presennol. Mae'r opsiwn sy'n perfformio orau yn cynnig gwell gwerth am arian a chadernid, ar yr un pryd â lleihau effeithiau amgylcheddol ac adeiladu.

2. **C: Beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael ag achosion o dagfeydd ar yr A494?**

   A: Byddai Opsiwn E (yr opsiwn sy'n perfformio orau) yn rhoi mwy o gadernid i'r rhwydwaith trafnidiaeth drwy ddarparu cyfleusterau llain galed i'r ddwy gerbytffordd newydd. Byddai'r lleiniau caled yn gwella diogelwch defnyddwyr y ffordd a'r staff cynnal a chadw. Ar ben hynny, byddai effaith bosibl unrhyw ddigwyddiadau neu ddamweiniau ar draffig yn lleihau. Croesawyd y cynllun ar gyfer lleiniau caled gan randdeiliaid yn y sector logisteg, gan fod cerbydau sy'n torri i lawr ar y bont bresennol yn gallu achosi oedi difrifol.

   Byddai strwythur newydd y bont yn cael ei ddylunio i ganiatáu'r potensial i droi'r lleiniau caled yn lonydd agored pe bai angen hynny yn y dyfodol. Byddai'r newid bach hwn i'r dyluniad yn diogelu'r strwythur yn y dyfodol pe bai gofyniad i wneud hynny.

   Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â thagfeydd ar draws y rhwydwaith cyfan, nid dim ond mewn mannau cyfyng. Fel rhan o'r dull gweithredu hwn ar draws y rhwydwaith, rydym yn datblygu Metro Gogledd Cymru a fydd yn ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach teithio ar draws y rhanbarth ar drên, ar fws, ar droed ac ar feic. Bydd hyn yn helpu i annog dewisiadau teithio amgen a lleihau tagfeydd.

Cwblhawyd ymgynghoriad cyhoeddus yng ngwanwyn 2025 ar Drafnidiaeth yn y Dyfodol yng Ngogledd Cymru, sef y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol 2025 i 2030 sy'n cael ei arwain gan Uchelgais Gogledd Cymru. Dyma rai prosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun a allai leihau tagfeydd ar yr A494:

- Gorsaf Drenau newydd Parcffordd Glannau Dyfrdwy, gyda'r gwasanaeth yn cael ei gynnal yn amlach rhwng Wrecsam a Bidston
- Cyfnewidfa newydd yn Garden City i gysylltu Gorsaf Pont Penarlâg, Datblygiad Porth y Gogledd, Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, a'r rhwydwaith bysiau craidd

Mae copi o'r cynllun, a chanlyniadau'r ymgynghoriad, ar gael yma: Uchelgais Gogledd Cymru | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (drafft) - Ymgynghoriad Cyhoeddus

3. **C: Pam mae pont un strwythur yn cael ei ffafrio yn lle strwythur deuol?**

   A: Mae pont un strwythur yn cynnig datrysiad mwy cost-effeithiol ac sy'n lleihau allyriadau carbon na'r opsiynau strwythur deuol. Drwy adeiladu pont un strwythur, gallwn hefyd gynnal dwy lôn o draffig yn ystod y gwaith adeiladu ar y bont bresennol.

4. **C: Beth sy'n cael ei wneud i wella diogelwch ar gyffordd Riverside Way?**

   A: Byddai cyffordd newydd Riverside Way yn cael ei dylunio yn unol â safonau ffyrdd cenedlaethol mewn cyfres o ddogfennau o'r enw 'Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd'. Wrth ddynesu at gyffordd Riverside Way ar yr A494, cynigir lôn ar wahân i gerbydau arafu cyn troi'r gornel. Byddai hyn yn gwella diogelwch ar y gyffordd gan fod angen i gerbydau arafu yn y brif gerbytffordd ar hyn o bryd, sy'n cynyddu'r risg o hergydiau i gefn cerbydau. Wrth ymuno â'r A494 o gyffordd Riverside Way, mae ynys draffig fawr a hyd cyflymiad yn cael eu cynnig i wella diogelwch ar gyfer traffig sy'n uno.

   Mae mesurau eraill yn cynnwys adolygiad o derfynau cyflymder 20mya ar Riverside Way a chynnig i leoli'r groesfan teithio llesol ymhellach i ffwrdd o brif gerbytffordd yr A494.

5. **C: Pam mae pob opsiwn yn cynnwys terfyn cyflymder o 50mya?**

   A: Oherwydd problemau hanesyddol o ran ansawdd aer yn y lleoliad hwn ar yr A494, mae terfyn cyflymder o 50mya ar waith ar hyn o bryd i'r ddau gyfeiriad o Gyfnewidfa Parc Dewi Sant i Gyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy. Nod y terfyn cyflymder is yw lleihau allyriadau cerbydau a gwella ansawdd yr aer, gan helpu i gydymffurfio â'r terfynau ar gyfer Nitrogen Deuocsid ($NO_2$).

Mae'r holl opsiynau sydd ar y rhestr fer wedi cael eu dylunio ar gyfer terfyn cyflymder 50mya, ac mae'r terfyn cyflymder is yn sicrhau llawer o fanteision yn y tymor byr a'r tymor hir, gan gynnwys:

- Gostyngiad sylweddol mewn carbon o ran allyriadau carbon gweithredol o draffig a charbon adeiladu, gan nad oes cymaint o waith cloddio angen ei wneud ar seilwaith ffyrdd sy'n ofynnol ar gyfer dyluniad 50mya
- Gwell diogelwch ar y ffordd
- Manteision lleol i drigolion a busnesau yn sgil llai o sŵn a gwell ansawdd aer

**6. C: Beth fyddai'n cael ei wneud i darfu cyn lleied â phosibl ar draffig a thrigolion yn ystod y cam adeiladu?**

A: Disgwylir i Opsiwn E (yr opsiwn sy'n perfformio orau) gael yr effaith leiaf ar y cam adeiladu o'i gymharu â'r opsiynau eraill sydd ar y rhestr fer, ac fe'i croesawyd gan lawer o randdeiliaid yn ystod ymgynghoriad Cam 2 WelTAG.

Mae adeiladu pont newydd un strwythur i fyny'r afon o'r strwythur presennol yn golygu y byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu'n cael ei wneud heb effeithio ar briffordd bresennol yr A494. Mantais arall yw nad oes dim tarfu ar y rheilffyrdd ar Brif Reilffordd Gogledd Cymru.

Ar hyn o bryd, amcangyfrifir y bydd yn cymryd rhwng dwy a thair blynedd i gwblhau'r gwaith o adeiladu'r cynllun. Disgwylir i'r effaith ar y briffordd bresennol fod ar ddiwedd y cam adeiladu wrth glymu'r ffordd newydd â'r A494 bresennol.

I wneud y cysylltiad, bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu hystyried er mwyn tarfu cyn lleied â phosib. Byddwn yn ymgysylltu â'r contractwr a rhanddeiliaid eraill i gefnogi'r penderfyniadau hyn.

**7. C: A oes llwybrau mynediad eraill ar gyfer cerbydau adeiladu, gan osgoi Manor Road?**

A: Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd am y mater hwn, gan gynnwys gan drigolion Manor Road.

O ganlyniad i'r adborth hwn, rydym wedi diwygio'r cynigion ar gyfer tir y compownd adeiladu i'r dwyrain o'r afon. Cynigir mynediad i'r compownd hwn yn awr o'r A494.

**8. C: Pam mae cyfleusterau teithio llesol wedi cael eu cynnwys yn y cynigion?**

A: Mae'r dyletswyddau sydd wedi'u creu gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yng Nghymru yn golygu y dylai holl brosiectau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gynnwys opsiynau teithio llesol. Yn ein strategaeth drafnidiaeth bresennol, Llwybr Newydd (2021), dyma rai o'r blaenoriaethau:

- Ceisio annog pobl i symud oddi wrth ddefnyddio ceir preifat i ddulliau trafnidiaeth sy'n fwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau.
- Buddsoddi mewn seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth carbon isel, hygyrch, effeithlon a chynaliadwy sy'n galluogi mwy o bobl i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, a cherbydau allyriadau isel.

Cynigir hyd at 3km o lwybrau cerdded a beicio newydd a gwell fel rhan o'r Cynllun ac mae'r gwelliannau hyn wedi'u cynnwys ym mhob opsiwn sy'n cael eu hystyried. Byddai'r llwybrau newydd yn darparu cysylltiadau newydd a mwy diogel rhwng cymunedau a mannau o ddiddordeb neu fannau gwaith. Byddent yn rhoi mwy o ddewis a ffyrdd eraill o deithio i bobl, gyda chysylltiadau â Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Beicio Cenedlaethol 568.

9. **C: Sut byddai modd lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro rhwng gwahanol ddefnyddwyr ar y llwybr cyd-ddefnyddio?**

A: Bydd y llwybrau cyd-ddefnyddio yn cael eu dylunio yn unol â Chanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol a byddant yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr a ragwelir. Drwy gydol y cynllun, bydd y llwybrau cyd-ddefnyddio yn cael eu dylunio gyda lled clir o 3.0m o leiaf. Bydd clustogfeydd ychwanegol yn cael eu cynnwys i wahanu'r llwybrau oddi wrth draffig cerbydau a nodweddion fertigol fel cyrbau, waliau a goleuadau stryd. Yr unig eithriad fydd y llwybr newydd drwy bont bresennol y rheilffordd, lle bydd cyfyngiad lled ymylol o 2m o led clir gyda chlustogfeydd 0.5m ar y naill ochr a'r llall (h.y. cyfanswm lled o 3m gan gynnwys clustogfeydd). Bydd arwyddion a marciau llwybr yn cael eu defnyddio i roi gwybod i ddefnyddwyr ar hyd y llwybr.

10. **C: Beth yw statws 'Llwybr Coch' Coridor Sir y Fflint yr A494 / A55?**

A: Cwblhawyd ymgynghoriad cyhoeddus yng ngwanwyn 2025 ar Drafnidiaeth yn y Dyfodol yng Ngogledd Cymru, sef y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol 2025 i 2030 sy'n cael ei arwain gan Uchelgais Gogledd Cymru.

Mae'r cynllun yn cynnwys uchelgais strategol penodol ar gyfer ffordd o ran Coridor Sir y Fflint (Llwybr Coch) yr A494 / A55:

*'Dylid adolygu'r achos dros gyflawni rhai cynlluniau priffyrdd strategol sydd wedi'u hoedi, yn enwedig lle gall y rhain ddarparu manteision ehangach a gwella cyfleusterau ar gyfer teithio cynaliadwy. Y llwybrau blaenoriaeth yw Coridor yr A494/A55/Sir y Fflint a'r A483 Wrecsam.'*

Mae copi o'r cynllun, a chanlyniadau'r ymgynghoriad, ar gael yma: Uchelgais Gogledd Cymru | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (drafft) - Ymgynghoriad Cyhoeddus